OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2326 (Cy.243)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cylchfan Tremadog i Gylchfan Porthmadog, Man i'r De o Dremadog, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed 19 Medi 2011*

*Yn dod i rym 23 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun-Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cylchfan Tremadog i Gylchfan Porthmadog, Man i'r De o Dremadog, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn .

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

19 Medi 2011

*G R Morgan*

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## Atodlen 1
## Terfyn Cyflymder 30 mya

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd yr A487 â Stryd yr Eglwys hyd at bwynt 295 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt yr un gyffordd.

## Atodlen 2
## Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o'r bolard traffig a golau ynddo ar ben de-orllewinol yr ynys hollti cyfagos i gylchfan Tremadog i bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd yr A487 â Stryd yr Eglwys.